

**Cynllun Aberthu Cyflog Prifysgol Aberystwyth
ar gyfer Talebau Gofal Plant**

**Llyfryn Gwybodaeth
(Telerau'r Cynllun)**

Cynllun Aberthu Cyflog Prifysgol Aberystwyth ar gyfer Talebau Gofal Plant

Cyflwyniad

Erbyn hyn, mae ffordd fwy hyblyg o dalu costau gofal plant ar gael. Y mae Prifysgol Aberystwyth wedi sefydlu cynllun drwy Accor a fydd yn caniatáu ichi gyfnewid neu aberthu cyfran o'ch cyflog am dalebau gofal plant. Bydd gan staff sy'n gymwys i gymryd rhan yn y cynllun hwn y gallu i leihau eu cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol.

Gellir cysylltu ag Accor ar 0845 3304433 neu gallwch ymweld â'u gwefan yn <http://www.childcarevouchers.co.uk/index.asp>

1. Beth yw cynllun aberthu cyflog?

Y mae aberthu cyflog yn digwydd pan fo gweithwyr yn cytuno i newid eu contract cyflogaeth fel eu bod yn ildio'r hawl i dderbyn cyfran o'u cyflog. Yn gyfnewid am hyn, drwy Dalebau Gofal Plant Accor, gwneir taliad i ofalwr sydd wedi'i gymeradwyo ac a ddewisir gan y gweithwyr. Seilir didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol y gweithwyr ar y cyflog is, ar ôl yr aberthiad cyflog.

2. Sut y mae'r gweithwyr yn elwa?

Drwy gymryd rhan yn y cynllun, bydd hyd at £243 y mis o daliadau gofal plant yn rhydd o dreth ac yswiriant gwladol. Gallai hyn arbed hyd at £962 y flwyddyn i dalwr treth cyfradd sylfaenol, neu £1,195 i dalwr treth cyfradd uwch.

Gellir cyfrifo arbedion treth ac Yswiriant Gwladol ar wefan Accor. <http://accorestimator.opp-links.org.uk/basic.aspx>

3. Cyfraniadau pensiwn

Os ydych yn cyfrannu i Gynllun Pensiwn ac Yswiriant Prifysgol Aberystwyth, Cronfa Bensiwn Dyfed neu Gynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), bydd eich cyfraniadau yn cael eu seilio ar y cyflog uwch, cyn aberthu, er mwyn gwarchod lefel eich pensiwn.

Ni fydd aelodau o'r Cynlluniau Pensiwn hyn yn colli budd-daliadau pensiwn, a hynny gan y bydd y Brifysgol a'i gweithwyr yn parhau i wneud cyfraniadau pensiwn ar sail y cyflog cyn aberthu.

Dylai'r rheini a chanddynt bensiynau personol, neu sy'n talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs), geisio cyngor ariannol annibynnol, gan y gallai'r cynllun aberthu cyflog effeithio ar y rhain.

4. Sut y mae'r Brifysgol yn elwa?

Bydd y cynllun yn rhan o'r ffordd y mae'r Brifysgol yn mynd ati i ymdrin â'r cydbwysedd gwaith-bywyd, a bydd yn helpu i ddenu a chadw gweithwyr drwy roi'r dewis iddynt arbed arian yng nghyswllt gofal plant.

5. Pwy sy'n gallu ymuno â'r cynllun?

Gweithwyr Prifysgol Aberystwyth sydd:

- Â chyfrifoldeb rhiant am unrhyw blentyn neu blant (gan gynnwys llysblant);
- Yn derbyn cyflog misol, rheolaidd.

6. At ba bwrpas y gellir defnyddio'r talebau?

Y mae'n rhaid defnyddio'r talebau i dalu am ofal plant sy'n gofrestredig neu wedi'i gymeradwyo. Mae hyn yn cynnwys;

- Gwarchodwyr plant, meithrinfeydd a chynlluniau chwarae sydd wedi'u cofrestru gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.
- Clybiau ar ôl ysgol sy'n cael eu rhedeg gan ysgol ar dir yr ysgol neu gan awdurdod lleol.
- Cynlluniau gofal plant sy'n cael eu rhedeg gan gyrrff llywodraethol ysgolion o dan y cynllun 'ysgolion estynedig'.
- Cynlluniau gofal plant sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr sydd wedi'u cymeradwyo.
- Gofalwr maeth sydd wedi'i g/chymeradwyo (yn gofalu am blentyn nad yw'n blentyn maeth iddo/i)

" DS: Yn gyffredinol, nid yw gofal plant a ddarperir gan berthynas** i'r plentyn yn gymwys am gymorth drwy elfen gofal plant y Credyd Treth Teuluoedd sy'n Gweithio na'r esgusodiadau treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar ofal plant y mae cyflogwyr yn cyfrannu ato. Yr unig eithriad i hyn yw pan fo perthynas wedi ei gofrestru neu ei gymeradwyo fel gwarchodwr plant, ac yn digwydd gofalu am blentyn sy'n perthyn iddo/iddi, ond sy'n cael ei d/thalu'n bennaf am ofalu am blant nad ydynt yn perthyn iddo/iddi. Mewn gair, y mae bod yn warchodwr plant cyflogedig ar blentyn sy'n perthyn iddo/i yn EILBETH i orchwylion gwarchod plant cyflogedig arferol y gwarchodwr. Y mae'n rhaid i'r gofal hwn gael ei ddarparu y *tu allan* i gartref y plentyn."

***Yn hyn o beth, y mae perthynas i'r plentyn yn golygu rhiant, tad-cu a mam-gu, modryb, ewythr, brawd neu chwaer – boed hynny drwy waed, hanner gwaed, priodas, neu affinedd.*

7. Beth y mae hyn yn ei olygu ar gyfer y Darparwr Gofal Plant?

Y mae'n rhaid i bwy bynnag sy'n darparu gofal plant fod yn barod i dderbyn talebau a chofrestru gydag Accor. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y gall eich dewis ddarparwr gofrestru, cysylltwch ag Accor ar 0845 3304433 neu ymwelwch â'u gwefan <http://www.childcarevouchers.co.uk/carer/joiningthescheme/index.asp>

8. A oes unrhyw amodau eraill?

Ni all cyflog 'ar ôl aberthu' fynd â gweithiwr yn is na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol na'r Terfyn Enillion Is. Ceir cyfrifwr credyd treth defnyddiol ar wefan Talebau Gofal Plant Accor <http://accorestimator.opp-links.org.uk/>
Er mwyn mewngofnodi i'r Cynllun Talebau Gofal Plant, teipiwch ABER9108

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Terfyn Enillion Is a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar wefan Cyllid y Wlad (www.inlandrevenue.gov.uk/rates/nic.htm a www.inlandrevenue.gov.uk/nmw)

9. Beth y mae 'cyfrifoldeb rhiant' yn ei olygu?

Y mae hyn yn golygu bod y plentyn:

- yn blentyn i weithiwr a gynhelir ar gost y gweithiwr, neu
- yn byw gyda'r gweithiwr, neu
- yn blentyn y mae gweithiwr yn meddu ar yr holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldeb ac awdurdod sydd gan fam neu dad, yn ôl y gyfraith, dros y plentyn ac eiddo'r plentyn.

10. Beth yw rôl Cyllid y Wlad mewn perthynas â'r Cynllun?

Yr ydym wedi cysylltu â Chyllid y Wlad er mwyn cael sêl bendith ar y Cynllun.

11. A fyddaf yn gallu gadael y cynllun ar unrhyw adeg?

Oherwydd rheolau Cyllid y Wlad, ni allwch adael y cynllun ar unrhyw adeg o'ch dewis. Bydd y newid i'ch contract yn rhedeg o'r mis cyntaf yr effeithir ar eich cyflog am y deuddeg mis canlynol. Dim ond os oes newid yn eich ffordd o fyw y gallwch adael y cynllun. Dyma restr o newidiadau derbyniol mewn ffordd o fyw;

- Y mae'r gweithiwr yn rhoi'r gorau i weithio gyda'r Brifysgol.
- Y mae cyflog y gweithiwr yn newid, fel bo'i incwm ar ôl aberthu yn llai na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, neu'n is na'r Terfyn Enillion Is.
- Ceir newid pwysig arall yn oriau gwaith neu gyflog gweithiwr (er enghraifft, aelod o staff ar gyfnod mamolaeth).
- Newid a achosir gan "ddigwyddiadau annisgwyl bywyd", sef unrhyw beth sy'n gysylltiedig â genedigaeth, marwolaeth a phriodas.
- Newid mewn trefniadau gofal plant.

12. A allaf ymuno â'r cynllun ar unrhyw adeg?

Bydd y cynllun yn rhedeg o'r dyddiad ymuno am y deuddeg mis canlynol. Rhaid i rieni sydd eisiau ymuno â'r cynllun gyflwyno eu cytundeb aberthu cyflog wedi'i lenwi i Ken Evans yn Adnoddau Dynol o leiaf fis cyn y dyddiad y dymunant ymuno â'r cynllun.

13. Beth yw'r proses ar gyfer gwneud cais i ymuno â'r cynllun?

Ar ôl ichi ddarllen y *Llyfryn Gwybodaeth (Telerau'r Cynllun)* a'r arweiniad i dalebau gofal plant ar wefan Accor <http://www.childcarevouchers.co.uk/resources/ccvguide.pdf>, yn ogystal â cheisio cyngor ariannol annibynnol os yw hynny'n briodol, bydd angen ichi gwblhau cytundeb aberthu cyflog, sydd ar gael gan Ken Evans yn Adnoddau Dynol. Bydd y cytundeb hwn yn gweithredu fel ychwanegiad at eich contract cyflogaeth.

Wedi i'r 'aberth' gyntaf gael ei thynnu o'ch cyflog, byddwch yn cael pecyn rhieni yn y post gan Accor. Bydd y pecyn yn cynnwys popeth sydd ei angen arnoch ynghyd â manylion eich cyfrif a llythyr yn egluro beth i'w wneud nesaf.

Y mae'r Brifysgol yn cynnig cynllun Talebau Gofal Plant Uniongyrchol, sy'n wasanaeth rhyngwyd a theleffon diogel.

14. Beth os ydw i'n cymryd seibiant di-dâl?

Bydd yn rhaid i chi roi gwybod i Adnoddau Dynol ddeufis o flaen llaw ynglŷn â'ch bwriad i gymryd seibiant di-dâl. Gallwch wneud cais i ailymuno â'r cynllun aberthu cyflog pan ddychwelwch i'r gwaith. Bydd yn rhaid ichi roi deufis o rybudd ynglŷn â phryd y bwriadwch ddychwelyd.

15. A fyddaf i'n dal i dderbyn unrhyw wobrau cyflog ac ychwanegiadau at fy nghyflog?

Bydd gwobrau cyflog ac ychwanegiadau perthnasol (gan gynnwys codiadau cyflog oherwydd dyrchafiad) yn cael eu hychwanegu yn y modd arferol (at eich cyflog cyn aberthu).

16. A fydd y cynllun yn cael effaith ar fy nghredyd treth plant ac/neu fy nghredyd treth gwaith?

Gall y cynllun aberthu cyflog gael effaith ar eich credydau treth. Efallai y byddwch yn derbyn taliadau uwch neu is.

Y mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Daycare Trust, sef yr elusen gofal plant genedlaethol, yn www.daycaretrust.org.uk. Fel arall, dylech geisio cyngor ariannol annibynnol neu gysylltu â'r swyddfa credydau treth cyn ichi ymuno â'r cynllun os ydych yn derbyn credydau (neu'n credu y byddwch yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol).

Y mae'n bosibl y bydd y cynllun yn cael effaith ar unrhyw fudd-daliadau eraill yr ydych yn eu derbyn hefyd. Dylech gysylltu â'ch swyddfa nawdd cymdeithasol leol neu eich awdurdod lleol i gael cyngor annibynnol.

17. A fydd y cynllun yn cael effaith ar lwfansau megis tâl mamolaeth a thâl salwch?

Bydd unrhyw dâl salwch, tâl gwyliau neu dâl mamolaeth y mae gennych hawl iddo (a'r rhan fwyaf o lwfansau eraill a delir fel canran o'ch cyflog) yn cael ei seilio ar eich cyflog ar ôl aberthu. Bydd tâl am weithio oriau ychwanegol, fodd bynnag, yn cael ei seilio ar eich cyflog cyn aberthu.

Gan fod tâl mamolaeth yn cael ei gyfrifo ar sail eich enillion cyfartalog dros gyfnod o 8 wythnos, byddai angen ichi adael y cynllun cyn i'r cyfnod hwnnw gychwyn.

18. Beth yw'r goblygiadau o safbwynt gwneud cytundeb morgais?

Gan fod y talebau yn rhan o'ch pecyn cyflog, byddant yn cael eu cynnwys yn eich enillion at ddibenion gwneud cytundeb morgais.

19. Rwy'n cael fy nghyflogi ar gontract tymor penodol. A allaf ymuno â'r cynllun?

Gallwch, bydd eich llythyr penodi yn cymryd hyn i ystyriaeth. Os estynnir eich penodiad tymor penodol fe fyddwch, fel rheol, yn gallu parhau i gymryd rhan yn y cynllun hyd y daw eich estyniad i ben.

20. A fydd fy nghyflog yn dychwelyd i'w lefel wreiddiol pan fyddaf yn gadael y cynllun aberthu?

Os ydych yn gadael y cynllun ac yn parhau i weithio i'r Brifysgol, bydd eich cyflog yn dychwelyd i'r lefel cyflog briodol fel pe na baech erioed wedi ymuno â'r cynllun.

21. Sut y bydd Adnoddau Dynol yn gwybod os oes unrhyw newid yn fy amgylchiadau personol?

Cyfrifoldeb yr aelod o'r staff yw hysbysu Adnoddau Dynol ynghylch unrhyw newidiadau. Y mae Adnoddau Dynol angen o leiaf MIS O RYBUDD yn hyn o beth.

22. Rydw i a'm partner yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun aberthu cyflog. A all y ddau ohonom ymuno?

Gallwch, cyhyd â bod y ddau ohonoch yn gyflogedig yma. Y mae gan bob aelod o'r staff hawl i aberthu hyd at £243 y mis.

23. Ble alla i gael cyngor annibynnol?

Ni all y Brifysgol roi cyngor annibynnol ichi. Felly, cynghorir gweithwyr sydd â diddordeb mewn ymuno â'r cynllun i geisio cyngor annibynnol yn gyntaf gan, er enghraifft, Cyngor ar Bopeth neu gynghorwr ariannol annibynnol. Bydd angen ichi gadarnhau ar y ffurflen gais eich bod wedi cael eich cynghori i geisio cyngor annibynnol. Dyma rai manylion cyswllt defnyddiol:

Cyngor ar Bopeth: 12 Cambrian Place, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1NT.
01970 612817

Treth ac Yswiriant Gwladol

Ardal Gorllewin Cymru: Tŷ Nant, 180 Stryd Fawr, Abertawe, Gorllewin Morgannwg,
SA1 5AP.

www.inlandrevenue.gov.uk

Pensiynau'r Wladwriaeth – Y Gwasanaeth Pensiwn

www.thepensionerservice.gov.uk

Budd-daliadau – Canolfan Byd Gwaith

www.jobcentreplus.gov.uk

Pob agwedd ar ofal plant – The Daycare Trust

www.daycaretrust.org.uk

Cyngor i Rien Sengl – Gingerbread

www.gingerbread.org.uk

Llinell Gymorth Credydau Treth – 0845 300 3900

www.taxcredits.inlandrevenue.gov.uk

24. Beth ddylwn i wneud os oes gennyf broblem â'r cynllun?

Cysylltwch â llinell gymorth Accor ar 0845 3304433 neu cysylltwch a Ken Evans yn Adnoddau Dynol.

Gwybodaeth bellach

- Oni chydymffurfir â thelerau'r cynllun, fel y'u nodir yn y llyfryn hwn, gall y Brifysgol fynnu bod gweithwyr yn gadael y cynllun, ac/neu yn ad-dalu unrhyw arbedion ariannol a wnaethant.
- Bydd y cynllun yn gweithredu am gyfnod o ddeuddeng mis i ddechrau, ac yn cael ei adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.
- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu'r cynllun yn ôl ar unrhyw adeg, os ceir newidiadau yng nghanllawiau neu arferion Cyllid y Wlad, neu ganllawiau neu arferion perthnasol eraill.